OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 1147 (Cy.155)

TAI, CYMRU

Gorchymyn Tai (Hawl i Gaffael a Hawl i Brynu) (Ardaloedd Gwledig Dynodedig a Rhanbarthau Dynodedig) (Diwygio) (Cymru) 2003

Wedi'i wneud	- -	*24 Ebrill 2003*
Yn dod i rym	- -	*25 Ebrill 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 157 o Ddeddf Tai 1985(**1**) ac adran 17 o Ddeddf Tai 1996(**2**), ac ar ôl ymgynghori, yn unol ag is-adran (6) o adran 17 o Ddeddf Tai 1996, â'r awdurdodau lleol a'r cyrff a grybwyllir yn yr is-adran honno, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:—

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Tai (Hawl i Gaffael a Hawl i Brynu) (Ardaloedd Gwledig Dynodedig a Rhanbarthau Dynodedig) (Diwygio) (Cymru) 2003 a daw i rym ar 25 Ebrill 2003.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

Diwygio

2. Diwygir Gorchymyn Tai (Hawl i Gaffael a Hawl i Brynu) (Ardaloedd Gwledig Dynodedig a Rhanbarthau Dynodedig) (Cymru) 2003(**3**) yn unol â'r hyn a nodir yn erthyglau 3, 4, a 5 isod.

Erthygl 1

3. Yn Erthygl 1 yn lle "2002" rhowch "2003".

Erthygl 2

4. Ar ddiwedd Erthygl 2 ychwanegwch:

(**1**) 1985 p.68; *Gweler* erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.
(**2**) 1996 p.52; Gweler erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.
(**3**) O.S. 2003/54(Cy.5)